COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

CANLLAWIAU

Gwrthdaro buddiannau: canllaw i ymddiriedolwyr elusen

MAI 2014
Fformat newydd Chwefror 2017

Cynnwys

1. Am y canllaw hwn 2

2. Gwrthdaro buddiannau: crynodeb cyflym 5

3. Adnabod gwrthdaro buddiannau 7

4. Atal gwrthdaro buddiannau rhag effeithio ar wneud penderfyniadau 12

5. Pam mae hi'n bwysig dilyn y canllaw hwn 18

Atodiad 1: Budd i ymddiriedolwyr - y rheolau cyfreithiol y mae angen i ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol ohonynt (gofyniad cyfreithiol) 21

Atodiad 2: Y fframweithiau cyfreithiol ar gyfer cwmnïau elusennol a SCEau 22

Atodiad 3: Gwrthdaro buddiannau difrifol 25

Atodiad 4: Llunio polisi gwrthdaro buddiannau 28

Rhoi sylw i wrthdaro buddiannau: rhestr gyfeirio 29

1. Am y canllaw hwn

Mae gwrthdaro buddiannau yn effeithio ar elusennau o bob lliw a llun. Gallant arwain at benderfyniadau sydd heb fod er lles gorau'r elusen ac sy'n annilys neu'n agored i'w herio. Gall gwrthdaro buddiannau hefyd niweidio enw da elusen neu ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau yn gyffredinol. Gall yr effeithiau niweidiol hyn gael eu hatal os yw ymddiriedolwyr unigol yn gallu adnabod gwrthdaro buddiannau, a gall y corff ymddiriedolwyr weithredu i'w hatal rhag effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniadau.

Mae dyletswydd gyfreithiol gan bob ymddiriedolwr i weithredu er lles gorau'r elusen yn unig. Disgwyliwn iddynt gymryd camau priodol yn unol â'r canllaw hwn i sicrhau y gallant wneud hynny.

1.1 Gall gwrthdaro buddiannau effeithio ar unrhyw elusen

Gall cysylltiadau personol a phroffesiynol ymddiriedolwyr ddod â manteision i waith elusen ac yn aml maent yn rhan o'r rheswm pam y gofynnwyd i unigolyn ymuno â'r corff ymddiriedolwyr. Fodd bynnag, gallant arwain at wrthdaro buddiannau, ac mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr ymateb yn effeithiol i hyn.

Nid yw bodolaeth gwrthdaro buddiannau yn bwrw amheuaeth ar unplygrwydd yr ymddiriedolwr a effeithir, ar yr amod ei fod yn cael sylw priodol.

1.2 Beth mae'r Comisiwn yn ei ddisgwyl?

Gwelwn llawer gormod o achosion o wrthdaro buddiannau heb ei adnabod neu heb ei drin yn dda, a gallai nifer o'r achosion hyn fod wedi cael eu hatal drwy wella ymwybyddiaeth ymddiriedolwyr a systemau cryfach. Disgwyliwn i ymddiriedolwyr adnabod a rhoi sylw effeithiol i unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n effeithio arnyn nhw neu eu helusen.

1.3 Pwy ddylai ddarllen ein canllaw a phryd mae'n gymwys?

Mae'r canllaw hwn yn gymwys i ymddiriedolwyr pob elusen yng Nghymru a Lloegr, elusennau cofrestredig ac anghofrestredig.

Argymhellwn fod ymddiriedolwyr yn darllen y canllaw hwn er mwyn iddynt ddeall yr hanfodion, a sut rydym yn disgwyl iddynt ddelio â'r gwrthdaro buddiannau sy'n eu hwynebu nhw neu eu helusen.

I gael trosolwg cyflym o'r prif faterion, argymhellwn eich bod yn darllen ein herthygl gryno ar **wrthdaro buddiannau**.

I gael esboniad mwy manwl o'n barn am **y gyfraith sy'n sail** i'n canllaw, cyfeiriwch at y sail gyfreithiol ar gyfer y canllaw hwn.

Mae'r canllaw hwn yn gymwys yn gyffredinol i bob math o ymddiriedolwr, gan gynnwys ymddiriedolwyr corfforaethol. Mae gan gyfarwyddwyr cwmnïau elusennol ac ymddiriedolwyr sefydliadau corfforedig elusennol (SCEau) rai dyletswyddau penodol hefyd. Rydym wedi crynhoi'r rhain yn **Atodiad 2**.

Er ei fod y tu allan i gwmpas y canllaw hwn, sy'n ymwneud ag ymddiriedolwyr yn unig, gall fod angen polisïau ar yr ymddiriedolwyr hefyd i sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n effeithio ar staff yr elusen, yn arbennig uwch aelodau staff, yn cael y sylw cywir. Mae'r egwyddorion yr un fath yn bennaf â'r rhai i ymddiriedolwyr a effeithir gan wrthdaro buddiannau. Fodd bynnag, yn wahanol i ymddiriedolwyr, fel rheol caiff staff eu talu a gallant dderbyn buddion eraill gan yr elusen fel rhan o'u tâl. Ni ddylent ymwneud ag unrhyw benderfyniadau'r ymddiriedolwyr ynghylch y tâl a dderbyniant.

Mae ymdrin yn briodol â gwrthdaro buddiannau yn rhan hollbwysig o allu ymddiriedolwyr i wneud penderfyniadau priodol, a thrafodir hyn yn **Eich penderfyniad chi: ymddiriedolwyr elusen a gwneud penderfyniadau**.

1.4 Rhaid a dylai - beth rydym yn ei olygu

'Rhaid' Mae'r gair yn cael ei ddefnyddio lle mae gofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol sy'n rhaid i chi gydymffurfio â hwy. 'A ddylai' yn cael ei ddefnyddio fel canllaw arfer da lleiaf y dylech eu dilyn oni bai fod rheswm da dros beidio.

1.5 Rhai termau a ddefnyddir yn y canllaw hwn

Budd ymddiriedolwr: Mae hyn yn golygu unrhyw achos lle mae arian, neu eiddo, nwyddau neu wasanaethau eraill sydd â gwerth ariannol, y mae ymddiriedolwr yn eu derbyn gan yr elusen. Mae'r gyfraith yn dweud na all ymddiriedolwyr gael budd gan eu helusen, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, oni bai bod awdurdod cyfreithiol digonol ganddynt i wneud hynny. Mae'r posibilrwydd o ymddiriedolwr yn cael budd o'r elusen hefyd yn creu gwrthdaro buddiannau ac mae angen i'r ymddiriedolwyr roi sylw effeithiol i hyn. **Nid** yw'r term budd ymddiriedolwr yn cynnwys unrhyw daliadau i ymddiriedolwyr ar gyfer eu **treuliau** parod priodol.

Deddf Elusennau: Mae'n golygu Deddf Elusennau 2011.

Dogfen lywodraethol: Mae hyn yn golygu'r ddogfen gyfreithiol sy'n amlinellu amcanion yr elusen ac, fel arfer, sut y caiff ei gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, yn gyfansoddiad, yn erthyglau cymdeithasu, yn drawsgludiad, yn ewyllys, yn Siartr Frenhinol, yn gynllun gan y Comisiwn neu'n ddogfen ffurfiol arall.

Gwrthdaro buddiannau: Mae gwrthdaro buddiannau yn unrhyw sefyllfa lle y gallai buddion neu deyrngarwch personol ymddiriedolwr ei atal rhag gwneud penderfyniad er lles yr elusen yn unig, neu gellir eu gweld felly.

Gwrthdaro teyrngarwch: Mae hyn yn golygu math arbennig o wrthdaro buddiannau lle y gallai teyrngarwch neu ddyletswydd ymddiriedolwr i unigolyn neu sefydliad arall atal yr ymddiriedolwr rhag gwneud penderfyniad ond er lles gorau'r elusen yn unig.

Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE): Mae sefydliad corfforedig elusennol, neu SCE, yn ffurf gyfreithiol newydd ar gyfer elusen. Mae'n ffurf gorfforedig o elusen sydd heb fod yn gwmni. Nid yw darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006 yn gymwys i SCEau oni bai bod y rheoliadau SCE yn gwneud darpariaeth o'r fath.

Tor-ddyletswydd: Mae hyn yn golygu torri unrhyw ddyletswydd ymddiriedolwr. Yn achos ymddiriedolwyr elusen, mae'r dyletswyddau hyn yn dibynnu ar natur yr elusen. Mae dyletswyddau gan ymddiriedolwyr elusennau anghorfforedig o dan y Deddfau Ymddiriedolwyr ac mae dyletswyddau gan gyfarwyddwyr cwmnïau elusennol o dan y Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae Deddf Elusennau 2011 yn amlinellu'r dyletswyddau ar gyfer ymddiriedolwyr SCEau.

Treuliau: Mae hyn yn golygu ad-daliadau gan yr elusen o'r taliadau cyfreithlon y bu'n rhaid i'r ymddiriedolwr eu talu'n bersonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau fel ymddiriedolwr. Gall unrhyw gostau rhesymol sy'n caniatáu i ymddiriedolwyr gyflawni eu dyletswyddau gael eu hystyried yn dreuliau cyfreithlon a chael eu talu o gronfeydd yr elusen.

Unigolyn cysylltiedig: Yn fras, mae hyn yn golygu teulu, perthnasau neu bartneriaid busnes ymddiriedolwr, yn ogystal â busnesau y mae gan ymddiriedolwr fudd ynddynt drwy berchnogaeth neu ddylanwad. Mae'r term yn cynnwys priod neu bartner di-briod neu sifil ymddiriedolwr, plant, brodyr a chwiorydd, wyrion ac wyresau a neiniau a theidiau, yn ogystal â busnesau lle mae ymddiriedolwr neu aelod o'r teulu yn dal o leiaf un rhan o bump o'r cyfranddaliad neu hawliau pleidleisio. Os ydych yn ansicr a yw unigolyn neu fusnes yn unigolyn cysylltiedig dylech geisio cyngor gan gyfreithiwr neu rywun arall sy'n gymwys i gynghori ar y mater.

Os yw elusen naill ai'n talu unigolyn cysylltiedig am nwyddau neu wasanaethau, neu'n gwaredu tir i unigolyn cysylltiedig, mae'r Ddeddf Elusennau yn diffinio beth yw unigolyn cysylltiedig yn adran 188 (ar gyfer nwyddau a gwasanaethau) ac adran 118 (ar gyfer gwaredu tir).

Ymddiriedolwr: Mae hyn yn golygu ymddiriedolwr elusen. Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol. Yn nogfen lywodraethol yr elusen, gellir eu galw gyda'i gilydd yn ymddiriedolwyr, y bwrdd, ymddiriedolwyr rheoli, y pwyllgor rheoli, llywodraethwyr neu gyfarwyddwyr, neu gall fod rhyw deitl arall ganddynt.

Ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddiwr: Mae hyn yn golygu unrhyw ymddiriedolwr sy'n defnyddio, fel buddiolwr yr elusen, offer, cyfleusterau, gwasanaethau neu gymorth sy'n cael eu darparu fel rhan o ddibenion elusennol ei elusen.

2. Gwrthdaro buddiannau: crynodeb cyflym

Gofyniad cyfreithiol: mae dyletswydd gyfreithiol gan ymddiriedolwyr i weithredu er lles gorau eu helusen yn unig. Ni ddylent roi eu hunain mewn unrhyw sefyllfa lle y gall eu dyletswyddau fel ymddiriedolwr wrthdaro ag unrhyw fudd personol a all fod ganddynt.

Mae hyn yn golygu y dylent drin gwrthdaro buddiannau drwy ddilyn y camau canlynol:

2.1 ADNABOD gwrthdaro buddiannau

Mae ymddiriedolwyr:

- â chyfrifoldeb personol unigol dros ddatgan y gwrthdaro buddiannau sy'n effeithio arnynt
- dylai fod systemau cryf ganddynt yn eu lle er mwyn iddynt allu adnabod gwrthdaro buddiannau

Mae **Rhan 3** yn esbonio sut i adnabod gwrthdaro buddiannau.

2.2 ATAL y gwrthdaro buddiannau rhag effeithio ar y penderfyniad

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr wneud eu penderfyniadau er lles gorau'r elusen yn unig. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt ystyried y gwrthdaro buddiannau er mwyn gallu dileu unrhyw effaith bosibl ar y penderfyniad sy'n cael ei wneud. Bydd y ffordd y maen nhw'n gwneud hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mewn achosion o wrthdaro buddiannau difrifol gall olygu bod yr ymddiriedolwyr yn penderfynu dileu'r gwrthdaro drwy:

- beidio â gweithredu mewn ffordd arbennig neu
- gweithredu mewn ffordd wahanol er mwyn sicrhau nad yw gwrthdaro buddiannau yn codi neu
- beidio â phenodi ymddiriedolwr arbennig neu sicrhau bod ymddiriedolwr yn ymddiswyddo

Os yw'r ymddiriedolwyr wedi penderfynu yn erbyn dileu'r gwrthdaro buddiannau mae'n rhaid iddyn nhw ei atal rhag effeithio ar eu penderfyniad mewn ffordd wahanol. Mae'n rhaid iddyn nhw:

- ddilyn unrhyw ofynion penodol yn y gyfraith neu yn nogfen lywodraethol yr elusen sy'n delio â gwrthdaro buddiannau a sut y dylid ei reoli
- os nad oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y ddogfen lywodraethol neu ddarpariaethau cyfreithiol penodol, dylen nhw
  - ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr sydd â'r gwrthdaro buddiannau ddatgan eu budd yn gynnar yn y broses ac, yn y rhan fwyaf o achosion, dynnu'n ôl o gyfarfodydd perthnasol, trafodaethau, gwneud penderfyniadau a phleidleisio
  - ystyried diweddaru eu dogfen lywodraethol i gynnwys darpariaethau ar gyfer delio â gwrthdaro buddiannau
- gall fod angen iddynt, mewn achosion eithriadol, geisio awdurdod y Comisiwn os yw'r gwrthdaro buddiannau mor ddifrifol neu helaeth ac felly drwy ddilyn y dewisiadau hyn ni fyddai'r ymddiriedolwyr yn gallu dangos eu bod wedi gweithredu er lles gorau'r elusen

Bydd gwrthdaro buddiannau yn codi'n aml oherwydd bod penderfyniad yn cynnwys rhoi budd posibl i ymddiriedolwr. Os mai dyma yw'r achos:

- gofyniad cyfreithiol: mae'n rhaid i'r budd i'r ymddiriedolwr gael ei awdurdodi'n briodol a
- gofyniad cyfreithiol: mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr ddilyn unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r awdurdod sy'n dweud sut y dylai'r gwrthdaro buddiannau gael ei drin

Mae **Rhan 3** ac **Atodiad 1** yn esbonio sut i sicrhau bod awdurdod priodol yn ei le cyn bod unrhyw benderfyniad i roi budd i ymddiriedolwr yn cael ei wneud.

2.3 COFNODI gwrthdaro buddiannau

Dylai ymddiriedolwyr:

- gofnodi'n ffurfiol unrhyw wrthdaro buddiannau a sut y cafodd sylw
- gofyniad cyfreithiol: rhaid iddynt, os ydynt yn paratoi cyfrifon croniadau, ddatgelu unrhyw fuddion i ymddiriedolwyr yng nghyfrifon yr elusen

Mae **Rhan 4** yn esbonio'r camau y gall yr ymddiriedolwyr eu cymryd i atal y gwrthdaro buddiannau rhag effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniadau a sicrhau bod eu penderfyniad yn cael ei wneud er lles eu helusen yn unig.

Gall ymddiriedolwyr ddefnyddio'r **rhestr gyfeirio** hon i'w helpu i roi sylw i wrthdaro buddiannau.

3. Adnabod gwrthdaro buddiannau

Gofyniad cyfreithiol: disgwyliwn i ymddiriedolwyr a chyrff ymddiriedolwyr unigol allu adnabod unrhyw wrthdaro buddiannau yn gynnar. Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i bob ymddiriedolwr unigol osgoi rhoi ei hun mewn sefyllfa lle y gallai ei ddyletswydd i weithredu er lles gorau'r elusen yn unig wrthdaro ag unrhyw fudd personol a allai fod ganddynt. Yn ymarferol mae hyn yn golygu:

- bydd ymddiriedolwyr unigol sy'n methu ag adnabod a datgan unrhyw wrthdaro buddiannau yn methu â chydymffurfio a'u cyfrifoldeb cyfreithiol personol i osgoi gwrthdaro buddiannau a gweithredu er lles gorau'r elusen yn unig
- mae'n rhaid i'r corff ymddiriedolwyr sicrhau nad yw unrhyw wrthdaro buddiannau yn ei atal rhag gwneud penderfyniad er lles gorau'r elusen yn unig

Mae adnabod gwrthdaro buddiannau yn gynnar yn allweddol i sicrhau bod ymddiriedolwyr yn gweithredu er lles gorau'r elusen yn unig. Mae'r adran hon yn disgrifio beth yw gwrthdaro buddiannau, y polisïau a'r gweithdrefnau ysgrifenedig y dylai fod gan ymddiriedolwyr yn eu lle, a'r sefyllfaoedd cyffredin lle mae gwrthdaro buddiannau yn codi.

3.1 Beth yw gwrthdaro buddiannau?

Gofyniad cyfreithiol: mae gwrthdaro buddiannau yn unrhyw sefyllfa lle y gallai buddiannau neu deyrngarwch personol ymddiriedolwr eu hatal rhag gwneud penderfyniad er lles gorau'r elusen yn unig, neu gellir eu gweld felly.

Pwyntiau allweddol ynghylch adnabod gwrthdaro buddiannau

- mae gwrthdaro buddiannau yn bodoli hyd yn oed os oes posibilrwydd y gallai buddiannau personol neu ehangach ymddiriedolwr ddylanwadu ar benderfyniadau'r ymddiriedolwr
- gall hyd yn oed y canfyddiad bod gwrthdaro buddiannau yn bodoli niweidio'r elusen - os nad yw'r canfyddiad yn gywir oherwydd nid oes unrhyw wrthdaro buddiannau, dylai'r ymddiriedolwyr bob amser allu ymateb yn briodol i'r sefyllfa drwy reoli'r risgiau i'r elusen a bod yn barod i esbonio sut y maen nhw wedi gwneud eu penderfyniad er lles gorau'r elusen yn unig - mae ein canllaw **Eich penderfyniad chi: ymddiriedolwyr elusen a gwneud penderfyniadau** yn esbonio'r egwyddorion y dylai ymddiriedolwyr eu dilyn wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu helusen
- mae gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â buddiannau personol ymddiriedolwr a buddiannau'r rhai sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolwr hwnnw - mae hyn yn golygu bod gwrthdaro buddiannau yn codi os yw trafodiad yn cael ei gynnig rhwng yr elusen ac unigolyn cysylltiedig - yn yr un modd, mae gwrthdaro buddiannau yn codi os oes budd neu fudd posibl i unigolyn cysylltiedig

Bod yn barod i ymateb i wrthdaro buddiannau

- mae'n arfer da i ddogfen lywodraethol elusen gynnwys darpariaethau i ddelio â sefyllfaoedd o wrthdaro buddiannau ac os nad yw dogfen lywodraethol yn cynnwys darpariaethau o'r fath, dylai'r ymddiriedolwyr ystyried ei diwygio
- mae hefyd yn arfer da i gael polisi gwrthdaro buddiannau ysgrifenedig a chofrestr buddiannau oherwydd gallant helpu ymddiriedolwyr unigol a'r corff ymddiriedolwyr i adnabod gwrthdaro buddiannau yn brydlon - mae **Atodiad 4** yn amlinellu cynnwys posibl ar gyfer polisi gwrthdaro buddiannau

- mae'r Comisiwn yn annog ymddiriedolwyr i sicrhau bod yr elusen yn gweithredu mewn modd mor dryloyw â phosibl. Gyda hyn mewn golwg gall yr ymddiriedolwyr benderfynu cyhoeddi eu polisi ar wrthdaro buddiannau a pheth neu'r cyfan o'u cofrestr buddiannau
- dylai'r corff ymddiriedolwyr ystyried gwrthdaro buddiannau fel mater cyn-benodi - dylid gofyn i ddarpar ymddiriedolwyr ynghylch gwrthdaro buddiannau posibl, a dylid datgan y rhain i'r rheiny a fydd yn penderfynu ar y penodiad - os yw darpar ymddiriedolwyr yn debygol o gael gwrthdaro buddiannau difrifol neu aml, dylai'r ymddiriedolwyr ystyried o ddifrif a ddylid penodi'r ymddiriedolwr hwnnw

3.2 Ble a sut bydd gwrthdaro buddiannau yn codi?

Fel arfer bydd gwrthdaro buddiannau yn codi os oes naill ai:

- budd ariannol neu fesuradwy posibl yn codi'n uniongyrchol i ymddiriedolwr, neu'n anuniongyrchol drwy unigolyn cysylltiedig neu
- gall dyletswydd yr ymddiriedolwr i'r elusen gystadlu â'r ddyletswydd neu'r teyrngarwch sydd ganddo neu ganddi i sefydliad neu unigolyn arall

Mae'r ddwy adran ganlynol yn trafod y rhain yn fwy manwl.

A. Buddion i ymddiriedolwyr

Gall ymddiriedolwyr gael budd o'u helusen dim ond os oes awdurdod penodol yn ei le cyn gwneud unrhyw benderfyniad sy'n rhoi budd i'r ymddiriedolwr.

Mae enghreifftiau o fuddion i ymddiriedolwyr yn cynnwys pan fydd ymddiriedolwyr yn penderfynu:

- gwerthu, rhoi benthyg neu brydlesu asedau elusen i ymddiriedolwr elusen
- caffael, benthyca neu brydlesu asedau gan ymddiriedolwr i'r elusen
- talu ymddiriedolwr am gyflawni eu rôl fel ymddiriedolwr
- talu ymddiriedolwr am gyflawni swydd ar wahân â thâl o fewn yr elusen, hyd yn oed os yw'r ymddiriedolwr wedi ymddiswyddo'n ddiweddar fel ymddiriedolwr
- talu ymddiriedolwr am gyflawni swydd â thâl ar wahân fel cyfarwyddwr neu weithiwr is-gwmni masnachu'r elusen
- talu ymddiriedolwr, neu unigolyn neu gwmni sydd â chysylltiad agos â'r ymddiriedolwr, am ddarparu gwasanaeth i'r elusen - mae hyn yn cwmpasu unrhyw beth a fyddai'n cael ei ystyried yn wasanaeth ac mae'n cynnwys gwasanaethau cyfreithiol, cyfrifyddu neu ymgynghori a hefyd paentio neu addurno adeiladau'r elusen, neu unrhyw waith cynnal a chadw arall
- cyflogi priod neu berthynas agos arall yr ymddiriedolwr yn yr elusen (neu yn is-gwmni masnachu'r elusen)
- rhoi grant i ymddiriedolwr sy'n ddefnyddiwr gwasanaeth, neu ddefnyddiwr gwasanaeth sy'n berthynas agos i'r ymddiriedolwr
- caniatáu i ymddiriedolwr sy'n ddefnyddiwr gwasanaeth ddylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaeth gyda mantais i'r ymddiriedolwr hwnnw yn unig

Enghraifft 1: Adnabod buddion ymddiriedolwyr

Mae ychydig o le swyddfa gwag gan elusen ac mae ei hymddiriedolwyr yn ystyried gosod y lle swyddfa i gwmni y mae un o'r ymddiriedolwyr yn berchen arno.

Byddai hyn yn fudd i ymddiriedolwr: byddai'n cynnwys trafodiad â busnes y mae ymddiriedolwr yn berchen arno. Gall yr ymddiriedolwyr barhau â'r trafodiad dim ond pan fydd awdurdod priodol ganddynt ar gyfer rhoi'r budd i'r ymddiriedolwr: mewn achosion sy'n cynnwys trafodiad eiddo ag unigolyn cysylltiedig, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr gael caniatâd y Comisiwn Elusennau a chydymffurfio â'r amodau yn Neddf Elusennau 2011 cyn gweithredu.

Mae **Atodiad 1** yn rhoi rhagor o fanylion am fuddion ymddiriedolwyr a'r rheolau cyfreithiol y mae angen i'r ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol ohonynt.

B. Gwrthdaro teyrngarwch

Mae'r gwrthdaro buddiannau yma yn codi oherwydd, er nad yw'r ymddiriedolwr a effeithir yn mynd i gael unrhyw fudd, gallai gallu'r ymddiriedolwr i wneud penderfyniadau yn yr elusen gael ei ddylanwadu gan ei fuddiannau eraill.

Er enghraifft, gallai teyrngarwch ymddiriedolwr i'r elusen wrthdaro â'i deyrngarwch i'r:

- corff wnaeth ei benodi i'r elusen
- aelodaeth neu'r adran o'r elusen wnaeth ei benodi i swydd ymddiriedolwr
- sefydliad arall, megis ei gyflogwr
- elusen arall lle mae'n ymddiriedolwr
- aelod o'i deulu
- unigolyn neu sefydliad cysylltiedig arall

Y prawf bob amser yw bod gwrthdaro buddiannau os gallai budd arall yr ymddiriedolwr, neu gallai budd arall yr ymddiriedolwr gael ei weld yn amharu ar allu'r ymddiriedolwr i benderfynu'r mater er lles gorau'r elusen yn unig.

Mae rhai mathau o wrthdaro buddiannau yn codi oherwydd bod gan ymddiriedolwr rwymedigaeth gyfreithiol neu ddyletswydd arall i sefydliad neu unigolyn arall sy'n cystadlu â'i gilydd. Bydd eraill yn deillio o deyrngarwch croes i'w gilydd sydd gan ymddiriedolwyr neu y teimlant sydd ganddynt tuag at deulu, ffrindiau neu bobl neu sefydliadau eraill sy'n rhan o rwydwaith yr ymddiriedolwr. Gallai gwrthdaro teyrngarwch godi hefyd pe gallai barn grefyddol, wleidyddol neu bersonol ymddiriedolwr ymyrryd â gallu'r ymddiriedolwr i benderfynu'r mater er lles gorau'r elusen yn unig.

Enghraifft 2: Adnabod gwrthdaro teyrngarwch

Mae unigolyn yn ymddiriedolwr ar gyfer dwy elusen sy'n bwriadu gwneud cais am yr un contract darparu gwasanaeth.

Mae'r gwrthdaro buddiannau yma yn wrthdaro teyrngarwch. Nid yw'n cynnwys rhoi budd i'r ymddiriedolwr, ond gallai ei phenderfynu yn y naill elusen neu'r llall gael ei ddylanwadu gan ei gwybodaeth o'r elusen arall a'i dyletswydd i'r elusen arall. Mae hyn yn golygu nad yw'n gallu bodloni ei dyletswydd i'r naill elusen neu'r llall i wneud penderfyniadau er ei lles gorau yn unig.

Mae **enghraifft 5** yn rhan 4 yn dangos sut y dylid delio â'r gwrthdaro hwn.

Gall buddiannau a theyrngarwch eraill ymddiriedolwyr greu gwrthdaro buddiannau o bryd i'w gilydd, ac weithiau mae'n achosi mân risg i'r elusen ac weithiau mae'n fwy difrifol. Gall yr ymddiriedolwyr benderfynu os nad yw gwrthdaro teyrngarwch yn achosi unrhyw risg neu risg isel i wneud penderfyniadau er lles gorau'r elusen, gall yr ymddiriedolwr a effeithir, ar ôl datgan ei fudd arall, gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniad.

Gofyniad cyfreithiol: mae'n rhaid i gyfarwyddwyr cwmnïau elusennol sy'n mabwysiadu'r ymagwedd hon gael yr awdurdod yn y ddogfen lywodraethol sy'n caniatáu i gyfarwyddwyr heb wrthdaro benderfynu y gall yr ymddiriedolwr a effeithir gan y gwrthdaro teyrngarwch gymryd rhan. Dylai ymddiriedolwyr mathau eraill o elusennau ystyried diweddaru eu dogfen lywodraethol i gynnwys y math hwn o awdurdod. Hyd yn oed os yw ymddiriedolwyr yn dibynnu ar awdurdod yn y ddogfen lywodraethol, dylen nhw sicrhau eu bod nhw'n gallu dangos eu bod nhw wedi gwneud eu penderfyniad er lles gorau'r elusen yn unig.

Adnabod gwrthdaro teyrngarwch risg isel

Mae penderfynu bod gwrthdaro buddiannau yn risg isel, ac y gall yr ymddiriedolwr a effeithir gymryd rhan yn y penderfyniad, yn fater i'r ymddiriedolwyr benderfynu. Nid yw'n bosibl rhoi barn bendant ynghylch pryd y mae hyn yn briodol. Mae'n dibynnu ar y penderfyniad arbennig a'r amgylchiadau perthnasol. Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr gymryd yr holl ffactorau perthnasol i ystyriaeth a bod yn barod i esbonio eu hymagwedd os gofynnir iddynt wneud hynny. Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos rhai sefyllfaoedd cyffredin a'r ystyriaethau a all fod dan sylw.

Enghraifft 3: Aelodaeth o sefydliad arall

Mae elusen addysgiadol yn gwneud penderfyniad ynghylch cynnig rhaglen o waith mewn canolfannau celfyddydau rhanbarthol, gan gynnwys un lle mae un o'i hymddiriedolwyr yn aelod.

Mae hwn yn wrthdaro teyrngarwch oherwydd mae gan yr ymddiriedolwr gysylltiad â'r ganolfan celfyddydau drwy ei haelodaeth. Fodd bynnag, gall yr ymddiriedolwyr ddod i'r casgliad bod hwn yn wrthdaro teyrngarwch risg isel, ac ar ôl ei ddatgan, nid yw'n atal yr ymddiriedolwr rhag cymryd rhan oherwydd:

- mae cysylltiad yr ymddiriedolwr i'r ganolfan celfyddydau drwy aelodaeth yn unig
- nid yw aelodaeth yr ymddiriedolwr yn debygol o gael unrhyw ddylanwad ar ei hymagwedd at y penderfyniad
- bydd unrhyw fuddion i aelodau'r ganolfan celfyddydau a fydd yn deillio o'r penderfyniad yn effeithio ar yr ymddiriedolwr yn yr un ffordd ag aelodau eraill yn unig

Mae **enghraifft 6** yn rhan 4 yn dangos sut y gellir delio â'r gwrthdaro hwn.

Enghraifft 4: Penodiadau i sefydliadau sydd â chysylltiad agos i'w gilydd

Pan fydd ymddiriedolwr yn cael ei benodi gan:

- gangen leol i gorff ymddiriedolwyr cenedlaethol yr elusen, neu
- gan sefydliad crefyddol i un o'i ysgolion,

mae'n dderbyniol fel arfer i'r ymddiriedolwr ddatgan gwrthdaro teyrngarach syml ac yna cymryd rhan yn y penderfyniadau.

Er y gall fod penderfyniad yn yr elusen sydd hefyd yn effeithio ar y corff penodi, mae'r tebygrwydd rhwng dibenion elusennol y ddau sefydliad yn golygu bod y gwrthdaro teyrngarwch sy'n codi'n aml yn risg isel yn unig i'r elusen. Fodd bynnag, dylai'r ymddiriedolwyr benderfynu ym mhob achos sut y dylid ymdrin â'r gwrthdaro teyrngarwch a dylent sicrhau eu bod yn gallu dangos bod unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud er lles gorau'r elusen yn unig.

Ymddiriedolwyr a benodwyd

Os yw ymddiriedolwr yn cael ei ethol neu ei benodi gan sefydliad cysylltiedig neu drydydd parti arall, mae'n rhaid iddo neu iddi weithredu er lles gorau'r elusen yn unig wrth gyflawni ei rôl fel ymddiriedolwr.

Mae'n syniad da i sicrhau bod ymddiriedolwyr, pan gânt eu hethol neu eu penodi, yn cael eu hyfforddi ar eu cyfrifoldebau fel ymddiriedolwyr, a bod y corff penodi hefyd yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau hyn.

Mae rhagor o wybodaeth i ymddiriedolwyr sy'n **llywodraethwyr ysgol** neu a benodir gan **Awdurdodau Lleol** neu gan **Sefydliad Corfforaethol**.

4. Atal gwrthdaro buddiannau rhag effeithio ar wneud penderfyniadau

Gofyniad cyfreithiol: ar ôl adnabod gwrthdaro buddiannau, mae'n rhaid i ymddiriedolwyr weithredu er lles gorau'r elusen yn unig. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt ystyried y gwrthdaro buddiannau er mwyn gallu dileu unrhyw effaith bosibl ar y penderfyniad sy'n cael ei wneud. Bydd y modd y maen nhw'n atal y gwrthdaro rhag effeithio ar benderfyniadau yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae'r rhan hon o'r canllaw yn esbonio:

- dylai ymddiriedolwyr unigol ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n effeithio arnynt bob amser
- mae unrhyw fethiant i ddatgan gwrthdaro buddiannau yn fater difrifol
- dylai'r corff ymddiriedolwyr ystyried a ddylai gwrthdaro buddiannau difrifol gael ei ddileu neu os oes angen awdurdod ar ei gyfer
- ni ddylai ymddiriedolwyr a effeithir gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau os gallan nhw fod ar eu hennill, boed yn uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol, drwy unigolyn cysylltiedig
- os oes gwrthdaro teyrngarwch, dylai ymddiriedolwyr ymdrin ag unrhyw gyfranogiad gan ymddiriedolwr sydd â'r gwrthdaro yn ofalus iawn
- waeth beth fo ymagwedd yr ymddiriedolwyr at atal gwrthdaro buddiannau rhag effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniad, dylent fod mewn sefyllfa i allu dangos y cafodd eu penderfyniad ei wneud er lles gorau'r elusen yn unig

Mae'r camau canlynol yn disgrifio sut y gall ymddiriedolwyr atal gwrthdaro buddiannau rhag effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniad.

4.1 Datgan gwrthdaro buddiannau

Mae dyletswydd gyfreithiol pob ymddiriedolwr i weithredu er lles gorau'r elusen yn unig yn golygu yn ymarferol y bydd ymddiriedolwyr unigol sy'n methu â datgan unrhyw wrthdaro buddiannau yn methu â chydymffurfio â'u dyletswyddau fel ymddiriedolwr.

Er bod datgan gwrthdaro buddiannau yn gyfrifoldeb yr ymddiriedolwr a effeithir yn bennaf, dylai'r corff ymddiriedolwyr sicrhau bod systemau cryf ganddynt yn eu lle fel bod gan ymddiriedolwyr unigol:

- ddealltwriaeth glir o'r amgylchiadau pan fyddant efallai mewn sefyllfa o wrthdaro buddiannau
- a'u bod yn deall eu dyletswydd bersonol i'w ddatgan

Disgwyliwn i ymddiriedolwyr gael eitem agenda safonol ar ddechrau pob cyfarfod ymddiriedolwr i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl.

Dylai ymddiriedolwr ddatgan unrhyw fudd sydd ganddo neu ganddi mewn eitem i'w thrafod, mor gynnar â phosibl, ac yn sicr cyn unrhyw drafodaeth o'r eitem ei hun.

Os nad yw ymddiriedolwr yn sicr a oes gwrthdaro buddiannau ganddo neu ganddi neu beidio, dylai fod yn agored, gan ddatgan y mater a'i drafod â'r ymddiriedolwyr eraill.

Os yw ymddiriedolwr yn ymwybodol o wrthdaro buddiannau heb ei ddatgan sy'n effeithio ar ymddiriedolwr arall, dylent hysbysu'r ymddiriedolwyr eraill neu'r Cadeirydd.

4.2 Ystyried dileu'r gwrthdaro buddiannau

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr ystyried y gwrthdaro buddiannau er mwyn gallu dileu unrhyw effaith bosibl ar y penderfyniad sy'n cael ei wneud. Mae hyn yn golygu mewn achosion o wrthdaro buddiannau difrifol y gallant benderfynu mai dileu'r gwrthdaro buddiannau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o'i atal rhag effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniad a dangos eu bod nhw wedi gweithredu er lles gorau'r elusen yn unig.

Mae gwrthdaro buddiannau difrifol yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r rhai sydd:

- yn ddifrifol neu helaeth ac felly nid yw'r ymddiriedolwyr yn gallu gwneud eu penderfyniadau er lles gorau'r elusen, neu gellid gweld nad ydynt yn gallu gwneud hynny
- yn bresennol mewn penderfyniadau arwyddocaol neu risg uchel yr ymddiriedolwyr
- yn golygu bod gwneud penderfyniadau effeithiol yn cael ei danseilio'n rheolaidd neu ni ellir ei reoli yn unol â'r ymagwedd arfer gorau neu ofynnol
- yn gysylltiedig â rhoi budd amhriodol i ymddiriedolwr

Yn ymarferol mae dileu'r gwrthdaro buddiannau yn debygol o olygu:

- peidio â gweithredu mewn ffordd arbennig
- delio â'r mater mewn ffordd wahanol er mwyn sicrhau nad yw gwrthdaro buddiannau yn codi. Gallai hyn olygu penderfynu peidio ag ystyried defnyddio cwmni ymddiriedolwr i wneud ychydig o waith i'r elusen pe byddai hynny'n golygu bod nifer y taliadau i ymddiriedolwyr, er eu bod wedi'u hawdurdodi, mewn perygl o gyflwyno lefelau o wrthdaro buddiannau a allai fod yn anodd i'w rheoli a'u cyfiawnhau. Mewn achosion eithriadol, gallai olygu ceisio awdurdod y Comisiwn Elusennau ymlaen llaw i wrthdaro buddiannau parhaus ac eang
- sicrhau bod ymddiriedolwr a effeithir gan wrthdaro buddiannau yn ymddiswyddo
- peidio â phenodi ymddiriedolwr pe byddai hynny'n cyflwyno gwrthdaro buddiannau

Mae rhagor o wybodaeth am wrthdaro buddiannau difrifol a sut y dylid delio â hyn i'w gweld yn **Atodiad 3**.

Os yw ymddiriedolwyr am fwrw mlaen â phenderfyniad a effeithir gan wrthdaro buddiannau difrifol, dylent geisio awdurdod y Comisiwn oni bai eu bod yn fodlon y bydd y dewisiadau a amlinellir yn y rhan hon o'r canllaw neu yn **Atodiad 3** yn eu galluogi i ddangos bod eu hymagwedd a'r penderfyniad er lles gorau'r elusen.

4.3 Dilyn y gyfraith a dogfen lywodraethol yr elusen

Gofyniad cyfreithiol: os yw ymddiriedolwyr wedi penderfynu yn erbyn dileu'r gwrthdaro buddiannau, mae'n rhaid iddynt ystyried sut i wneud eu penderfyniad er lles gorau'r elusen yn unig.

Mae gofynion penodol yn aml yn y gyfraith, dogfen lywodraethol yr elusen, neu delerau awdurdod a roddir gan y Comisiwn sy'n amlinellu sut y dylid delio â'r gwrthdaro buddiannau. Er enghraifft, os yw'r ymddiriedolwyr yn defnyddio'r pŵer yn y Ddeddf Elusennau, sy'n caniatáu ar gyfer talu ymddiriedolwyr am ddarparu gwasanaethau i'r elusen, mae'n rhaid i'r penderfyniad i wneud hyn gael ei wneud gan yr ymddiriedolwyr hynny na fyddant yn elwa.

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr ddilyn unrhyw ofynion cyfreithiol neu yn y ddogfen lywodraethol sy'n dweud sut y dylid ymdrin â gwrthdaro buddiannau. Dylent hefyd fodloni eu hunain bod gwneud hynny yn ffordd briodol o ddangos bod eu penderfyniad wedi cael ei wneud er lles gorau'r elusen yn unig.

Dylai'r ymddiriedolwyr hefyd ymgynghori a dilyn eu polisi gwrthdaro buddiannau eu hunain os oes un ganddynt.

Os nad yw'r ddogfen lywodraethol neu'r gyfraith yn dweud sut y dylid rheoli gwrthdaro buddiannau, dylai ymddiriedolwyr ddilyn y camau yn y rhan hon o'r canllaw.

4.4 Tynnu'n ôl o wneud penderfyniadau os yw gwrthdaro buddiannau yn gysylltiedig â budd i ymddiriedolwr

Os nad oes unrhyw ddarpariaethau cyfreithiol neu yn y ddogfen lywodraethol ynghylch rheoli gwrthdaro buddiannau, ac mae trafodiad ariannol yn cael ei gynnig rhwng ymddiriedolwr a'r elusen, neu unrhyw drafodiad neu drefniadau sy'n cynnwys rhoi budd i ymddiriedolwr:

- mae'n rhaid i'r budd i'r ymddiriedolwr gael ei awdurdodi ymlaen llaw a
- disgwyliwn i'r ymddiriedolwr a effeithir fod yn absennol o unrhyw ran o unrhyw gyfarfod pan fydd y mater yn cael ei drafod neu ei benderfynu. Ni ddylai'r unigolyn bleidleisio neu gael ei gyfrif wrth benderfynu a oes cworwm yn y cyfarfod

Mae tynnu'n ôl o wneud penderfyniadau yn golygu tynnu'n ôl pan fydd y trafodaethau a'r penderfyniadau cychwynnol yn digwydd, ac o unrhyw drafodaethau neu benderfyniadau eraill ar y mater.

Dylai'r ymddiriedolwyr ystyried diweddaru eu dogfen lywodraethol i gynnwys darpariaethau ar gyfer delio â gwrthdaro buddiannau, gan gynnwys yr amgylchiadau pan fydd rhaid iddynt dynnu'n ôl o wneud penderfyniad. Fel uchod, disgwyliwn y bydd y ddarpariaethau hyn, fan leiaf, yn gofyn i ymddiriedolwr y disgwylir iddo elwa o benderfyniad dynnu'n ôl o'r broses gwneud penderfyniad.

4.5 Tynnu'n ôl o wneud penderfyniad pan fydd gwrthdaro teyrngarwch

Os oes gwrthdaro teyrngarwch ac:

- nid yw'r ymddiriedolwr a effeithir yn disgwyl gael unrhyw fudd
- nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol cyfreithiol neu yn y ddogfen lywodraethol ynghylch sut y dylid ymdrin â gwrthdaro teyrngarwch

dylai'r ymddiriedolwr a effeithir ddatgan y budd. Yna mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr eraill benderfynu pa lefel o gyfranogiad, os oes, sy'n dderbyniol ar ran yr ymddiriedolwr sydd â'r gwrthdaro buddiannau. Yn y pen draw yr ymddiriedolwyr fydd yn penderfynu a yw tynnu'n ôl er lles gorau'r elusen pan fydd y math hwn o wrthdaro wedi cael ei ddatgan. Gallai'r opsiynau gynnwys, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i, benderfynu:

- ar ôl cofrestru a datgan y budd, a all yr ymddiriedolwr gymryd rhan fel arall yn y penderfyniad. Mae dogfen lywodraethol rhai elusennau yn caniatáu i'r ymddiriedolwyr sydd heb wrthdaro buddiannau i roi awdurdod i ymddiriedolwr sydd â gwrthdaro buddiannau i gymryd rhan yn y math hwn o benderfyniad

- a all yr ymddiriedolwr aros yn y cyfarfodydd lle mae'r penderfyniad yn cael ei drafod a'i wneud ond nid cymryd rhan
- a ddylai'r ymddiriedolwr dynnu'n ôl o'r broses gwneud penderfyniad yn y ffordd a ddisgrifir uchod
- Wrth benderfynu sut i weithredu:
- mae'n rhaid i ymddiriedolwyr wneud eu penderfyniadau er lles gorau'r elusen yn unig
- dylent ddiogelu enw da'r elusen bob amser a bod yn ymwybodol o'r argraff y gall eu gweithrediadau a'u penderfyniadau ei chael ar y rhai y tu allan i'r elusen
- dylent allu dangos bob amser eu bod nhw wedi gwneud penderfyniadau er lles gorau'r elusen ac yn annibynnol ar unrhyw fudd sy'n cystadlu â'i gilydd
- dylent ofyn i'r ymddiriedolwr a effeithir dynnu'n ôl o unrhyw benderfyniadau pan fydd budd arall yr ymddiriedolwr yn berthnasol i benderfyniad ymddiriedolwr risg uchel neu ddadleuol neu gallai gael effaith arwyddocaol, neu gellid ei weld fel penderfyniad sy'n cael effaith arwyddocaol ar allu'r ymddiriedolwr i wneud penderfyniadau yn yr elusen
- gallant ganiatáu i ymddiriedolwr gymryd rhan os yw ei fudd arall yn peri risg isel i wneud penderfyniadau er lles yr elusen, neu'n debygol o gael dylanwad dibwys yn unig ar ei ymagwedd at bwnc - os yw'r elusen yn gwmni rhaid i'r ymagwedd hon gael ei chaniatáu gan y ddogfen lywodraethol
- dylent fod yn ymwybodol bod presenoldeb ymddiriedolwr sydd â gwrthdaro buddiannau yn gallu effeithio ar yr ymddiriedaeth rhwng ymddiriedolwyr, gallai rhwystro trafodaeth rydd a gallai ddylanwadu ar wneud penderfyniadau mewn rhyw ffordd
- dylent, os nad oes unrhyw ddarpariaethau llywodraethol sy'n amlinellu sut y dylai gwrthdaro buddiannau gael ei drin, ystyried diweddaru eu dogfen lywodraethol i gynnwys darpariaethau ar gyfer delio â gwrthdaro buddiannau, gan gynnwys yr amgylchiadau pan fydd angen iddyn nhw dynnu'n ôl o wneud penderfyniad

Cyn eu trafodaethau, gall yr ymddiriedolwyr ofyn i ymddiriedolwr sy'n tynnu'n ôl i ddarparu unrhyw wybodaeth sydd ei hangen i helpu i wneud penderfyniad er lles gorau'r elusen.

Ni all ymddiriedolwyr ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn yr elusen ar gyfer eu budd nhw eu hunain neu fudd sefydliad arall os oedd yr wybodaeth honno yn gyfrinachol neu â gwerth arbennig megis sensitifrwydd masnachol.

Enghraifft 5: Tynnu'n ôl pan fydd gwrthdaro teyrngarwch

Yn **enghraifft 2**, nodwyd gwrthdaro teyrngarwch ar gyfer unigolyn sy'n ymddiriedolwr ar gyfer dwy elusen sy'n bwriadu gwneud cais am yr un contract i ddarparu gwasanaeth. Yma rydym yn ystyried sut i ddelio â hyn.

Yn gyntaf, mae cyfrifoldeb gan yr ymddiriedolwr dan sylw i ddatgan y gwrthdaro buddiannau yn gynnar yn y broses gyda phob elusen.

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr pob elusen ystyried gwrthdaro buddiannau er mwyn gallu dileu unrhyw effaith bosibl ar y penderfyniad sy'n cael ei wneud. Gall olygu penderfynu bod y gwrthdaro buddiannau mor ddifrifol ac felly yr unig ffordd effeithiol o'i atal yw trwy ei ddileu, sy'n debygol o olygu bod yr ymddiriedolwr yn ymddiswyddo. Mae hyn yn debygol o fod yn wir dim ond os yw'r gwrthdaro buddiannau yn debygol o godi'n aml neu'n peri risgiau uchel fel arall i allu gwneud penderfyniadau effeithiol.

Os yw'r ymddiriedolwyr yn penderfynu nad yw'r gwrthdaro mor ddifrifol â hynny ac nid oes angen ymddiswyddiad, mae'n rhaid iddynt atal y budd/ddyletswydd sy'n cystadlu sydd gan eu hymddiriedolwr rhag effeithio ar eu penderfyniad. Yma, mae hyn yn debygol o olygu y dylai'r ymddiriedolwr a effeithir dynnu'n ôl o'r cworwm ac o bob agwedd ar y drafodaeth, gwneud penderfyniadau a phleidleisio. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar eu hymagwedd mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr ddilyn unrhyw ddogfen lywodraethol neu ofynion cyfreithiol sy'n amlinellu sut y dylid ymdrin â gwrthdaro buddiannau. Dylent hefyd ddilyn unrhyw brosesau ym mholisi gwrthdaro buddiannau'r elusen. Dylent hefyd fodloni eu hunain bod y dull o drin hyn yn ffordd briodol o ddangos bod eu penderfyniad wedi cael ei wneud er lles gorau'r elusen yn unig.

Dylent gadw cofnod priodol o'u trafodaethau a'u penderfyniadau.

Sut bynnag y maent yn gweithredu, dylai ymddiriedolwyr pob elusen fodloni eu hunain bod yr ymddiriedolwr a effeithir yn deall nad yw'n gallu defnyddio gwybodaeth a geir yn yr elusen ar gyfer ei budd hi neu fudd sefydliad arall os oedd yr wybodaeth honno yn gyfrinachol neu â gwerth arbennig megis sensitifrwydd masnachol.

Enghraifft 6: tynnu'n ôl pan fydd gwrthdaro teyrngarwch

Yn **enghraifft 3**, disgrifiwyd gwrthdaro teyrngarwch rhywun sy'n ymddiriedolwr elusen addysgiadol, ac yn aelod o ganolfan celfyddydau leol ac mae'r elusen yn ystyried cynnig rhaglen o waith yn y ganolfan celfyddydau leol. Rydym hefyd yn amlinellu'r ffactorau a allai ei wneud yn wrthdaro risg isel.

Gall helpu'r ymddiriedolwyr i gael polisi gwrthdaro buddiannau i helpu i adnabod gwrthdaro teyrngarwch sy'n risg isel. Os yw'r ymddiriedolwyr yn penderfynu bod gan yr ymddiriedolwr a effeithir wrthdaro teyrngarwch nad yw'n ei hatal rhag gwneud penderfyniadau er lles gorau'r elusen, er bod y penderfyniad hefyd yn effeithio ar y ganolfan celfyddydau, mae'n dderbyniol i ddatgan y budd cyn cymryd rhan yn y penderfyniad.

Mae penderfynu bod gwrthdaro buddiannau yn risg isel, ac y gall yr ymddiriedolwr a effeithir gymryd rhan yn y penderfyniad, yn fater i'r ymddiriedolwyr. Nid yw'n bosibl rhoi barn bendant ynghylch pryd y mae hyn yn briodol. Mae'n dibynnu ar y penderfyniad arbennig a'r amgylchiadau perthnasol. Dylai'r ymddiriedolwyr ystyried yr holl ffactorau perthnasol a bod yn barod i esbonio eu hymagwedd os gofynnir iddyn nhw wneud hynny.

4.6 Cofnodi'r gwrthdaro buddiannau

Cadw cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniad

Disgwyliwn i gofnodion ysgrifenedig elusen ddogfennu unrhyw wrthdaro buddiannau a sut mae'r ymddiriedolwyr wedi delio â nhw. Y ffordd arferol o gofnodi penderfyniadau'r ymddiriedolwyr yw yng nghofnodion eu cyfarfodydd.

Os oes gwrthdaro buddiannau, dylai'r ymddiriedolwyr sicrhau bod y cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniad yn dangos:

- natur y gwrthdaro
- pa ymddiriedolwr neu ymddiriedolwyr gafodd eu heffeithio
- a gafodd unrhyw wrthdaro buddiannau ei ddatgan ymlaen llaw
- amlinelliad o'r penderfyniad
- a oedd unrhyw un wedi tynnu'n ôl o'r drafodaeth
- sut oedd yr ymddiriedolwyr wedi gwneud y penderfyniad er lles gorau'r elusen?

Mae cofnodi penderfyniadau fel hyn yn helpu ymddiriedolwyr i ddangos eu bod nhw wedi gweithredu'n briodol a chydymffurfio â'u dyletswyddau.

Datgelu taliadau neu fuddion

Gofyniad cyfreithiol: rhaid i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon ar sail croniadau gynnwys manylion am daliadau a buddion eraill i ymddiriedolwyr elusen ac unigolion cysylltiedig - gan gynnwys aelodau o'r teulu a busnesau. Hefyd mae'n rhaid iddynt ddweud o dan ba awdurdod cyfreithiol y mae'r taliadau neu'r buddion wedi cael ei wneud, ynghyd â'r rheswm drostynt.

Argymhellwn, waeth a oes angen iddynt baratoi cyfrifon croniadau neu beidio, y dylai pob elusen ddatgelu'r buddion y mae ymddiriedolwyr wedi'u derbyn yn eu cyfrifon croniadau.

Mae rhagor o wybodaeth am gyfrifon elusennau i'w gweld yn **Adroddiadau a Chyfrifon Elusennau: Yr hanfodion 2009 (CC15b)**.

5. Pam mae hi'n bwysig dilyn y canllaw hwn

5.1 Beth yw canlyniadau peidio â gweithredu'n briodol os oes gwrthdaro buddiannau?

Os nad yw ymddiriedolwyr yn adnabod neu'n ymateb yn briodol i wrthdaro buddiannau, gall fod canlyniadau difrifol i'r ymddiriedolwr a effeithir, yr elusen a ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau yn gyffredinol.

Os yw ymddiriedolwyr wedi gweithredu y tu allan i delerau dogfen lywodraethol yr elusen neu'r gyfraith, efallai na fydd eu penderfyniad yn ddilys. Gallai'r Comisiwn neu barti â buddiant, megis buddiolwr yr elusen, herio'r penderfyniad.

Rydym wedi cynhyrchu'r canllaw hwn i helpu ymddiriedolwyr i wneud penderfyniadau priodol pan fydd gwrthdaro buddiannau. Disgwyliwn iddynt ddefnyddio'r canllaw hwn i gyflawni eu dyletswydd i weithredu er lles gorau'r elusen yn unig a gallu darparu cyfiawnhad darbwyllol dros eu penderfyniadau os cânt eu herio.

Os nad yw ymddiriedolwyr yn gweithredu'n briodol neu'n gwneud camgymeriad, rydym bob amser yn disgwyl iddynt weithredu'n brydlon i unioni pethau ac atal hyn rhag digwydd eto.

Os yw gweithredu neu ddiffyg gweithredu'r ymddiriedolwyr yn risg ddifrifol i'r elusen, rydym yn debygol o ystyried hyn fel camreoli neu gamymddwyn a chymryd camau unioni.

A. Canlyniadau cyfreithiol (gofyniad cyfreithiol)

Mae methu â gweithredu'n briodol pan fydd gwrthdaro buddiannau yn groes i gyfrifoldebau cyfreithiol ymddiriedolwyr.

Gallai trafodiad a effeithir gan wrthdaro buddiannau, pan nad yw'r ymddiriedolwyr wedi gweithredu'n briodol, gael ei herio gan y Comisiwn neu gan barti â buddiant. Mewn rhai amgylchiadau gall y trafodiad fod yn anniogel a gallu cael ei annilysu neu, yn yr achos gwaethaf, gallai fod yn annilys o'r dechrau.

Os nad ydynt wedi gweithredu'n briodol, mae'n bosibl y bydd rhaid i'r ymddiriedolwyr ad-dalu unrhyw symiau a dalwyd gan yr elusen, os ydynt yn deillio o fudd heb ei awdurdodi i ymddiriedolwr neu dor-ddylestwydd arall. Dyma fydd yr achos hyd yn oed os yw'r elusen wedi elwa o'r trefniadau. Os yw'r elusen wedi cael colled hefyd, mae'n bosibl y bydd rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud iawn am golled o'r fath i'r elusen.

B. Canlyniadau rheoleiddio

Byddwn yn ymyrryd os oes pryderon gennym am gamymddygiad neu gamreoli gan ymddiriedolwyr neu os oes risg i eiddo elusen. Mae ein **fframwaith risg** yn esbonio ein bod yn penderfynu p'un ai a sut i ymyrryd yn seiliedig ar natur a lefel y risg a wynebir gan elusen neu elusennau yn gyffredinol.

Mae canlyniadau rheoleiddio gwneud penderfyniad sy'n destun gwrthdaro buddiannau yn dibynnu i raddau helaeth ar natur a difrifoldeb y gwrthdaro, ei effaith ar yr elusen a gallu'r ymddiriedolwyr i unioni'r sefyllfa a gweithredu yn unol â'u dyletswyddau.

Camau unioni gan yr ymddiriedolwyr

Os:

- yw effaith y gwrthdaro buddiannau ar yr elusen yn isel
- oes ychydig yn unig o golled neu ddifrod i'r elusen, neu golled neu ddifrod dibwys
- gall yr ymddiriedolwyr ddangos bod methu â gweithredu'n briodol yn gamgymeriad

disgwyliwn i'r ymddiriedolwyr ddefnyddio'r canllaw hwn i gywiro eu hymagwedd.

Yn yr achosion hyn fan lleiaf rydym yn disgwyl i ymddiriedolwyr:

- gymryd camau rhesymol i asesu a rheoli unrhyw risgiau i waith ac enw da'r elusen
- gwneud cofnod llawn o'r mater a sut y maen nhw wedi ymdrin â'r mater
- adolygu neu ddatblygu polisi gwrthdaro buddiannau, sicrhau bod pob ymddiriedolwr yn ymwybodol o'i gynnwys a'i ystyr, a gweithredu'r polisi yn llawn yn y dyfodol

Cyngor rheoleiddio cywirol

Os yw effaith y penderfyniad sy'n destun gwrthdaro buddiannau yn uwch, byddwn yn rhoi cyngor rheoleiddio cywirol. Mae'r ffactorau a allai gael effaith uwch ar yr elusen yn cynnwys gwrthdaro buddiannau sy'n gysylltiedig â budd heb ei awdurdodi i ymddiriedolwr, colled arall o gronfeydd elusen, cyhoeddusrwydd gwael i'r elusen neu niwed posibl i ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau yn gyffredinol.

Bydd cyngor rheoleiddio yn pennu beth y dylai'r ymddiriedolwyr ei wneud i ddatrys y sefyllfa a sicrhau nad yw'n codi eto. Mae'r cynllun gweithredu yn aml yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr sy'n gwasanaethu i benderfynu gweithredu eu hunain i adfer unrhyw symiau a gollwyd i'r elusen. Yn aml iawn mae'n golygu bod rhaid i'r ymddiriedolwyr sy'n gwasanaethu benodi ymddiriedolwyr annibynnol newydd i weithio gyda nhw.

Byddwn yn monitro sut mae ymddiriedolwyr yn gweithredu'r gwelliannau gofynnol o fewn amserlen benodol. Os na fydd y gwelliannau gofynnol yn cael eu gweithredu'n llawn, mae'n debygol o gael ei ystyried yn gamymddygiad neu'n gamweinyddu'r elusen a gall arwain at ddefnyddio ein pwerau.

Defnyddio ein pwerau

Byddwn yn ymyrryd drwy ddefnyddio ein pwerau ymchwilio mewn achosion difrifol/risg uchel. Fel arfer bydd hyn yn digwydd os yw'r mater neu'r honiad yn peri risg ddifrifol i'r elusen neu i ffydd gyhoeddus mewn elusennau yn gyffredinol.

Er enghraifft, os yw'n ymddangos bod yr ymddiriedolwyr wedi rhoi eu buddiannau nhw yn fwriadol neu'n esgeulus o flaen buddiannau'r elusen ac, o ganlyniad, maen nhw wedi elwa'n sylweddol ar draul yr elusen, byddwn yn defnyddio ein pwerau i:

- atal y camddefnydd, camymddygiad a chamreoli gan ymddiriedolwyr - mae hyn yn cynnwys os yw'r ymddiriedolwyr heb gymryd camau llawn i ddatrys y materion neu nid ydynt yn gallu gwneud hynny
- ymyrryd ym musnes yr elusen a chymryd camau i adfer unrhyw symiau a gollwyd i'r elusen os nad yw'r ymddiriedolwyr yn gallu neu'n amharod i wneud hynny, ac mae'r swm dan sylw yn sylweddol

Os ydym yn canfod tystiolaeth neu'n amau gweithgarwch troseddol byddwn yn cyfeirio'r mater i'r heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill ac, os yw'r budd cyhoeddus yn cyfiawnhau hynny, byddwn yn defnyddio ein pwerau ymyrryd ein hunain.

Ym mhob achos pan fyddwn yn ymyrryd, boed drwy roi cyngor rheoleiddio cywirol sy'n gofyn am weithredu neu ddefnyddio ein pwerau, byddwn yn mabwysiadu ymagwedd gryfach ac yn llai goddefgar os ydym ni wedi ymgysylltu a'r elusen eisoes am yr un mater, neu faterion tebyg.

Pan fyddwn yn ymyrryd, fan lleiaf rydym yn disgwyl i ymddiriedolwyr:

- ddarparu'n brydlon ddatgeliad llawn a gonest o'r holl ffeithiau perthnasol a gwybodaeth sydd ganddynt am y digwyddiad
- cymryd camau rhesymol i asesu a rheoli unrhyw risgiau i waith ac enw da'r elusen
- cydweithredu a gweithio gyda'r Comisiwn, os oes angen, er mwyn gallu rheoli'r elusen yn gywir
- gweithredu'n gyfrifol a chymryd camau i sicrhau eu bod yn bodloni eu cyfrifoldebau cyfreithiol yn y dyfodol - fel uchod yn aml mae hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr sy'n gwasanaethu i benderfynu gweithredu eu hunain i adfer y symiau a gollwyd i'r elusen - yn aml iawn mae'n golygu bod rhaid i'r ymddiriedolwyr sy'n gwasanaethu benodi ymddiriedolwyr annibynnol newydd i weithio gyda nhw
- adolygu neu ddatblygu polisi gwrthdaro buddiannau a sicrhau bod pob ymddiriedolwr yn ymwybodol o'i gynnwys a'i ystyr, a gweithredu'r polisi yn llawn yn y dyfodol
- gwneud cofnod llawn o'r mater a sut y maen nhw wedi ymdrin â'r mater

C. Canlyniadau i enw da gan gynnwys niweidio hyder cyhoeddus mewn elusennau

Dylai ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol o'r effeithiau negyddol arwyddocaol y gall gwrthdaro buddiannau eu cael ar enw da elusen ac ar ffydd a hyder cyhoeddus yn gyffredinol. Os yw'r rhai y tu allan i'r corff ymddiriedolwyr, megis cyllidwyr yr elusen neu gefnogwyr eraill, yn cael yr argraff bod yr ymddiriedolwyr wedi gweithredu er eu lles nhw eu hunain yn hytrach nag er lles yr elusen, gall hyn gael canlyniadau o ran enw da ac effeithio ar gyllid yn y dyfodol. Wrth ddelio â gwrthdaro buddiannau, dylai ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol sut y gall y sefyllfa ymddangos i rywun o'r tu allan i'r elusen, a sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn eu lle a fydd yn cynnig modd i'r ymddiriedolwyr ddangos bod sefyllfaoedd o'r fath wedi cael eu trin yn briodol.

Mae ein hadroddiad blynyddol **Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli** yn cynnwys astudiaethau achos go iawn o'n hymchwiliadau yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae hefyd yn esbonio sut rydym yn delio â materion llai difrifol sy'n achosi problemau mewn elusennau.

Atodiad 1: Budd i ymddiriedolwyr - y rheolau cyfreithiol y mae angen i ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol ohonynt (gofyniad cyfreithiol)

Os oes budd posibl i ymddiriedolwyr, mae'n bwysig cofio bod dau fater y mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr roi sylw iddynt.

- gweithredu er lles gorau'r elusen yn unig i atal gwrthdaro buddiannau sy'n gysylltiedig â'r budd ymddiriedolwyr rhag effeithio ar wneud penderfyniadau a
- sicrhau bod awdurdod priodol yn ei le cyn gwneud unrhyw benderfyniad sy'n rhoi budd i ymddiriedolwr

Mae'r cyntaf o'r rhain yn cael sylw yn y canllaw hwn: Mae'r ail wedi'i grynhoi isod.

- yn ôl y gyfraith gall ymddiriedolwyr gael budd o'u helusen dim ond os oes awdurdod penodol a gafwyd ymlaen llaw.
- bydd awdurdod yn dod naill ai o:
  - gymal yn nogfen lywodraethol yr elusen
  - darpariaeth statudol megis y pŵer yn y Ddeddf Elusennau sy'n caniatáu i elusennau, mewn rhai amgylchiadau, i dalu ymddiriedolwyr am y gwasanaethau ychwanegol a ddarparant i'r elusen sy'n ychwanegol at eu dyletswyddau arferol fel ymddiriedolwyr
  - y Comisiwn
  - y Llys
- mae'r term budd ymddiriedolwr yn cynnwys **unrhyw** daliadau neu fuddion i ymddiriedolwyr neu unigolyn cysylltiedig, ar wahân i'w treuliau parod rhesymol - mae'r term hefyd yn cynnwys sefyllfaoedd lle y gallai ymddiriedolwr gael eiddo, benthyciadau, nwyddau neu wasanaethau gan yr elusen.
- mae awdurdod yn ofynnol os oes posibilrwydd o fudd - mae hyn yn golygu bod rhaid i'r ymddiriedolwyr sicrhau bod awdurdod priodol ar gyfer unrhyw sefyllfaoedd lle y gallai ymddiriedolwyr gael budd, waeth a oes unrhyw fudd i ymddiriedolwr neu beidio
- os oes cynnig i werthu neu brydlesu tir elusen i ymddiriedolwr, neu i unigolyn neu gwmni sydd â chysylltiad agos â'r ymddiriedolwyr, bydd angen i'r Comisiwn awdurdodi hyn - mae hyn yn gymwys hyd yn oed os yw'n cael ei waredu ar werth llawn ar y farchnad
- nid yw talu treuliau rhesymol i ymddiriedolwyr yn fudd i ymddiriedolwr, felly nid yw'n creu gwrthdaro buddiannau neu'n gofyn am awdurdodiad.

Mae rhagor o wybodaeth am fuddion ymddiriedolwyr a'r gofyniad am awdurdodiad yn y canllaw **Treuliau a thaliadau ymddiriedolwyr (CC11)**.

Atodiad 2: Y fframweithiau cyfreithiol ar gyfer cwmnïau elusennol a SCEau

Cwmnïau elusennol: Pwyntiau allweddol am wrthdaro buddiannau a Deddf Cwmnïau 2006 (DC 2006)

Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol gan gyfarwyddwr cwmnïau elusennol o ran gwrthdaro buddiannau a buddion cyfarwyddwyr sy'n adlewyrchu i raddau helaeth y rhai sy'n gymwys i fathau eraill o ymddiriedolwyr. Mae ein canllaw yn gymwys i ymddiriedolwyr sy'n gyfarwyddwyr cwmnïau, ond mae'r canlynol yn disgrifio'r dyletswyddau gwrthdaro buddiannau penodol y mae DC 2006 yn eu rhoi arnynt.

Diffiniad o wrthdaro buddiannau

Gofyniad cyfreithiol: o 1 Hydref 2008 mae cyfarwyddwyr wedi bod o dan ddyletswydd benodol i osgoi sefyllfa lle y mae ganddynt, neu y gall fod ganddynt, fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n gwrthdaro, neu a allai wrthdaro, â buddiannau'r cwmni.

Ym marn y Comisiwn, roedd cyfarwyddwyr cwmnïau elusennol eisoes o dan ddyletswydd i osgoi gwrthdaro buddiannau cyn i'r adran hon gael ei gweithredu. Mae gwrthdaro buddiannau yn cynnwys y rhai sy'n codi pan fydd:

- cyfarwyddwr, unigolyn cysylltiedig â chyfarwyddwr, â budd ariannol personol mewn trafodiad gyda'r elusen. Gall y budd fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol
- cyfarwyddwr, neu unigolyn cysylltiedig â chyfarwyddwr, â gwrthdaro dyletswydd/teyrngarwch
- hyd yn oed y posibilrwydd bod buddiannau personol cyfarwyddwr neu ddyletswyddau/teyrngarwch cyfarwyddwr yn gallu effeithio ar ei allu i wneud penderfyniad

Amgylchiadau pan na fydd y ddyletswydd gyffredinol ar gyfarwyddwyr i osgoi gwrthdaro buddiannau yn gymwys

Gofyniad cyfreithiol: nid yw'r ddyletswydd gyffredinol yn gymwys pan fydd gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â thrafodiad sydd:

- wedi cael ei awdurdodi gan erthyglau'r cwmni
- wedi cael ei awdurdodi gan y Comisiwn neu'r Llys
- wedi'i effeithio gan wrthdaro dyletswydd/teyrngarwch pan fydd y cyfarwyddwyr sydd heb wrthdaro buddiannau wedi awdurdodi'r math hwn o wrthdaro buddiannau drwy ddefnyddio pŵer cyfansoddiadol - ym marn y Comisiwn, dylai erthyglau'r cwmni gyfyngu pŵer cyfarwyddwyr i awdurdodi gwrthdaro yn yr amgylchiadau hyn dim ond mewn sefyllfaoedd lle nad oes unrhyw fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol o unrhyw natur i gyfarwyddwr neu unigolyn cysylltiedig - bydd cyfyngiad o'r fath yn caniatáu awdurdodi gwrthdaro teyrngarwch yn unig

Sylwer: Gall cwmnïau a ffurfiwyd cyn 2008 gael hyd i'r darpariaethau awdurdodi sy'n ymwneud â gwrthdaro buddiannau ym Memorandwm y cwmni yn hytrach nag yn ei Erthyglau Cymdeithasu. Mae hyn yn bodloni gofynion DC 2006.

Oes rhaid i gyfarwyddwyr cwmnïau elusennol ddiwygio'r erthyglau er mwyn cydymffurfio â'u dyletswydd i osgoi gwrthdaro buddiannau heb ei awdurdodi?

Ym marn y Comisiwn, nid oes angen gwneud hyn ar yr amod bod darpariaethau eisoes yn bodoli ar gyfer delio ag unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi. Fodd bynnag, gwerthfawrogwn y gall rhai elusennau ddymuno gwneud hynny.

Mae **memorandwm ac erthyglau cymdeithasu enghreifftiol y Comisiwn Elusennau (GD1)** yn gydnaws â darpariaethau gwrthdaro buddiannau DC 2006.

Datgan gwrthdaro buddiannau

Gofyniad cyfreithiol: mae'n rhaid i gyfarwyddwyr ddatgan budd mewn unrhyw drafodiad neu drefniadau arfaethedig neu wirioneddol â'r cwmni elusennol. Gallai methu â gwneud hynny fod yn drosedd. Gall erthyglau'r cwmni ei gwneud hi'n ofynnol i dynnu'n ôl o unrhyw drafodaeth a phenderfynu a oes gwrthdaro posibl rhwng buddiannau'r cyfarwyddwr a buddiannau'r elusen.

Budd ymddiriedolwr

Gofyniad cyfreithiol: os yw'r gwrthdaro yn codi o fudd i gyfarwyddwr, mae'n rhaid i'r cyfarwyddwyr eraill:

- ddibynnu ar bŵer penodol digonol yn nogfen lywodraethol yr elusen neu'r Ddeddf Elusennau neu
- wneud cais am awdurdod y Comisiwn a dangos bod y trafodiad yn fuddiol ac er lles yr elusen

Ni all aelodau cwmni elusennol fabwysiadu pwerau a fydd yn rhoi budd i'w ymddiriedolwyr heb awdurdod y Comisiwn.

Mae angen awdurdod y Comisiwn os nad yw darpariaethau'r ddogfen lywodraethol bresennol yn ddigonol i awdurdodi gwrthdaro buddiannau

Gofyniad cyfreithiol: os nad yw darpariaethau'r ddogfen lywodraethol yn ddigonol, gall y Comisiwn awdurdodi cyfarwyddwr neu gyfarwyddwyr i wneud rhywbeth a fyddai'n groes fel arall i'r ddyletswydd i osgoi gwrthdaro. Bydd rhaid i'r cyfarwyddwyr fodloni'r Comisiwn bod y camau y bwriedir eu cymryd er lles yr elusen.

Os yw'r gwrthdaro yn cynnwys budd i gyfarwyddwr, sydd heb ei gwmpasu gan bŵer y Ddeddf Elusennau i dalu ymddiriedolwyr am wasanaethau a ddarparwyd i'r elusen, mae'n rhaid i'r cyfarwyddwyr ddibynnu ar bŵer digonol yn nogfen lywodraethol yr elusen, neu wneud cais am awdurdod y Comisiwn a dangos bod y trafodiad er lles yr elusen.

Mae'r ddyletswydd i osgoi gwrthdaro buddiannau yn DC 2006 yn ymestyn i rai trosglwyddiadau rhwng elusen anghorfforedig a chwmni elusennol. Mae'r rhain yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae ased sylweddol heb fod yn arian parod yn cael ei drosglwyddo o elusen anghorfforedig i'r cwmni elusennol. Mae gwrthdaro buddiannau yn debygol os yw un neu ragor o ymddiriedolwyr yr elusen anghorfforedig hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol. Yn yr achosion hyn, gall y trosglwyddiad ddigwydd gyda chaniatâd ysgrifenedig blaenorol y Comisiwn yn unig.

Yn ogystal, os yw'r trosglwyddiad yn cynnwys trosglwyddo rhwymedigaethau (h.y. rhwymedigaethau pensiwn neu forgais), mae ymddiriedolwyr yr elusen anghorfforedig, sef cyfarwyddwyr y cwmni elusennol, hefyd yn debygol o fod angen awdurdod y Comisiwn i wneud y penderfyniad i drosglwyddo'r rhwymedigaethau a'r asedau. Y rheswm am hyn yw oherwydd bydd trosglwyddo rhwymedigaethau o ymddiriedolwyr elusen anghorfforedig i'r cwmni elusennol bob amser yn cynnwys ymddiriedolwyr yr elusen anghorfforedig sy'n gyfarwyddwyr y cwmni elusennol yn:

- cael budd o statws atebolrwydd cyfyngedig yr elusen anghorfforedig

- cael eu rhyddhau o'r cyfan neu peth o'u hatebolrwydd personol blaenorol fel ymddiriedolwyr yr elusen anghorfforedig neu
- yn cael eu hindemnio yn erbyn unrhyw atebolrwydd parhaus posibl

Awdurdodi'r budd hwn i ymddiriedolwyr fyddai angen cymeradwyaeth y Comisiwn o bosib.

Rydym wedi cynhyrchu gwybodaeth i elusennau am **Ddeddf Cwmnïau 2006**. Mae Tŷ'r Cwmnïau hefyd yn darparu ystod eang o ganllawiau i gyfarwyddwyr cwmni.

Sefydliadau Corfforedig Elusennol (SCEau): Pwyntiau allweddol ynghylch gwrthdaro buddiannau yn y Ddeddf Elusennau a rheoliadau SCE

Mae sefydliad corfforedig elusennol, neu SCE, yn ffurf gyfreithiol newydd ar gyfer elusen. Mae'n ffurf gorfforedig o elusen sydd heb fod yn gwmni.

Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr SCE ynghylch gwrthdaro buddiannau a buddion ymddiriedolwyr yn adlewyrchu'r rhai sy'n gymwys i fathau eraill o ymddiriedolwyr i raddau helaeth. Mae'r canllaw hwn yn gymwys i ymddiriedolwyr SCE, ond dylent hefyd fod yn ymwybodol sut y mae eu dyletswyddau o ran gwrthdaro buddiannau wedi'u pennu yn y Ddeddf Elusennau a rheoliadau SCE.

Datgelu gwrthdaro buddiannau

Yn ogystal ag amlinellu dyletswyddau statudol ar gyfer ymddiriedolwyr SCE, mae'r Ddeddf Elusennau yn dweud na all ymddiriedolwr SCE gael budd o drefniadau neu drafodiad y mae'r SCE yn ymrwymo iddo os, cyn ymrwymo i'r trefniadau neu'r trafodiad, nid oedd yr ymddiriedolwr wedi datgelu ei fudd i bob un o'r ymddiriedolwyr eraill.

Yn yr un modd â mathau eraill o elusennau, rhaid cael awdurdod priodol ar gyfer unrhyw fudd sy'n effeithio ar ymddiriedolwr SCE. Nid yw datgeliad gan ymddiriedolwr o wrthdaro buddiannau yn awdurdodi ymddiriedolwr i gael budd.

Cymryd rhan mewn penderfyniad pan fydd gwrthdaro buddiannau

Mae rheoliadau cyffredinol SCE yn dweud na all ymddiriedolwr SCE a fydd yn cael budd uniongyrchol neu anuniongyrchol o drafodiad neu drefniadau â'r SCE gymryd rhan yn y penderfyniad. Mae hyn hefyd yn gymwys i benderfyniadau gan aelodau'r SCE. Mae'r rheoliad yn dweud na all yr ymddiriedolwr neu'r aelod a effeithir gael ei gyfrif yn y cworwm am y rhan honno o'r busnes. Nid yw'r ddyletswydd hon yn gymwys os nad yw'n rhesymol i'r trafodiad neu'r trefniadau gael eu hystyried yn rhywbeth sy'n debygol o arwain at wrthdaro buddiannau.

Buddion ymddiriedolwyr gan drydydd parti

Ni all ymddiriedolwyr SCE dderbyn budd gan drydydd parti sy'n cael ei roi iddynt ar sail eu swydd fel ymddiriedolwr neu oherwydd eu bod nhw'n gwneud, neu nid ydynt yn gwneud rhywbeth fel ymddiriedolwr. Mae eithriad os nad yw'n rhesymol i ystyried y byddai derbyn y budd yn debygol o arwain at wrthdaro buddiannau.

Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu gwybodaeth gyffredinol am **SCEau**.

Atodiad 3: Gwrthdaro buddiannau difrifol

Mae rhai achosion lle mae cyrff ymddiriedolwyr wedi'u heffeithio gan wrthdaro buddiannau difrifol ac felly nid ydynt yn gallu gwneud eu penderfyniad er lles gorau'r elusen, neu gellid gweld nad ydynt yn gallu gwneud hynny. Mae'r adran hon yn disgrifio rhai o'r sefyllfaoedd hyn a'r ffactorau y dylai ymddiriedolwyr eu hystyried wrth roi sylw iddynt. Nid yw'r enghreifftiau a'r dewisiadau a nodir yn rhestr gyflawn.

Penderfyniadau arwyddocaol neu risg uchel yr ymddiriedolwyr

Gallai hyn godi pan fydd:

- gwrthdaro sy'n cynnwys budd ariannol arwyddocaol ac mae ymddiriedolwyr elusen, a gafodd ei sefydlu gan deulu ac mae aelod o'r teulu yn ymddiriedolwr yr elusen, yn cynnig gwerthu cyfranddaliad yr elusen mewn cwmni teuluol neu
- wrthdaro teyrngarwch os yw'r elusen mewn gwrthdaro arwyddocaol â sefydliad arall ac mae'r ymddiriedolwr yn aelod o gorff llywodraethu'r sefydliad hwnnw

Mae'r mathau hyn o benderfyniadau yn aml yn denu mwy o sylw allanol. Gallai fod yn fwy anodd i ymddiriedolwyr ddangos yn glir neu esbonio bod eu penderfyniad wedi cael ei wneud yn annibynnol ar unrhyw fudd preifat neu ddyletswydd gystadleuol. Gallai bodolaeth gwrthdaro buddiannau fod yn niweidiol i fudd ac enw da'r elusen.

Yn yr achos hwn mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr ystyried:

- y gwrthdaro buddiannau er mwyn gallu dileu unrhyw effaith bosibl ar y penderfyniad sy'n cael ei wneud. Gall hyn olygu bod yr ymddiriedolwyr yn penderfynu symud gwrthdaro buddiannau difrifol. Yn yr enghreifftiau a roddir, mae symud gwrthdaro buddiannau yn debygol o gael ei gyflawni drwy ofyn i'r ymddiriedolwr(wyr) sydd â'r gwrthdaro buddiannau i ymddiswyddo er mwyn sicrhau nad yw'r penderfyniad wedi'i danseilio gan y gwrthdaro buddiannau. Os yw'r gwrthdaro buddiannau yn cynnwys elfen o fudd i ymddiriedolwr sy'n ymddiswyddo, byddai angen awdurdod ar gyfer y budd o hyd er bod ef neu hi wedi ymddiswyddo

Os ydyn nhw am barhau heb symud y gwrthdaro buddiannau, dylai'r ymddiriedolwyr ystyried:

- cael cyngor arbenigol annibynnol ynghylch sut y dylent ymateb i'r gwrthdaro, gan gynnwys cyngor ar unrhyw elfennau o wrthdaro buddiannau neu fudd i ymddiriedolwr sydd angen awdurdod
- ceisio cyngor gan y Comisiwn, mewn achosion risg uchel, gan gynnwys cyngor ar unrhyw elfennau o wrthdaro buddiannau neu fudd i ymddiriedolwr y dylid ei awdurdodi
- penodi ymddiriedolwyr newydd, sydd heb wrthdaro buddiannau, i helpu i benderfynu'r mater a dangos bod y penderfyniad yn cael ei wneud er lles gorau'r elusen yn unig
- peidio â phenodi ymddiriedolwr pe byddai hynny'n creu perygl o gyflwyno gwrthdaro buddiannau pellach

Tanseilio gwneud penderfyniadau effeithiol

Gallai hyn godi pan fydd sefyllfa yn datblygu yn yr elusen sy'n golygu:

- na all yr ymddiriedolwyr weithredu oherwydd bod y mwyafrif o'r ymddiriedolwyr â gwrthdaro ar bwnc arbennig - yn yr un modd, gallai fod unig ymddiriedolwr gan elusen megis awdurdod lleol neu gyngor plwyf ac yn ei rôl fel ymddiriedolwr ac fel cyngor/awdurdod mae'n canfod bod budd 'dwy ochr' ganddo mewn perthynas â'r trafodiad neu'r penderfyniad

- mae gan gyfran fawr o'r ymddiriedolwyr fuddiannau sy'n gwrthdaro â rhai'r elusen. Gallai hyn godi os oes gan sawl un o'r ymddiriedolwyr, neu'r bobl neu'r cwmnïau sy'n gysylltiedig â nhw, gysylltiadau â'i gilydd
- mae buddiannau un neu ragor o'r ymddiriedolwyr yn cystadlu'n gyson â buddiannau'r elusen

Waeth beth fo ffurf y corff ymddiriedolwyr, mae'n rhaid iddo wneud ei benderfyniadau yn seiliedig ar ystyried buddiannau gorau'r elusen yn unig.

Os yw gwrthdaro buddiannau yn rhy ddifrifol neu helaeth gall hyn arwain at broblemau difrifol. Gall yr angen i ymddiriedolwyr unigol dynnu'n ôl yn rheolaidd o drafodaethau olygu bod yr elusen yn colli'r budd o gyfraniad cytbwys gan yr ymddiriedolwyr ac mae hefyd yn gosod her o ran gwneud penderfyniadau â chworwm. Gall y sefyllfa hon gael effaith andwyol ar enw da'r elusen.

Yn yr achos hwn mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr ystyried:

- y broblem o wrthdaro buddiannau er mwyn gallu dileu unrhyw effaith bosibl ar y penderfyniad sy'n cael ei wneud - gall hyn olygu bod yr ymddiriedolwyr yn penderfynu symud gwrthdaro buddiannau difrifol - yn yr enghreifftiau a roddir, mae symud y gwrthdaro buddiannau yn debygol o gael ei gyflawni drwy ofyn i'r ymddiriedolwyr ymddiswyddo os oes gwrthdaro sylweddol ganddynt, neu drwy beidio â gweithredu mewn ffordd a effeithir gan wrthdaro buddiannau - fel uchod, os yw'r gwrthdaro buddiannau yn gysylltiedig ag elfen o fudd i ymddiriedolwr sy'n ymddiswyddo, byddai angen awdurdod ar gyfer y budd o hyd er bod ef neu hi wedi ymddiswyddo

Os ydyn nhw am barhau heb symud y gwrthdaro buddiannau, dylai'r ymddiriedolwyr ystyried:

- cael cyngor arbenigol annibynnol ynghylch sut y dylent ymateb i'r gwrthdaro, gan gynnwys cyngor ar unrhyw elfennau o wrthdaro buddiannau neu fudd i ymddiriedolwr sydd angen awdurdod
- ceisio cyngor gan y Comisiwn, mewn achosion risg uchel, gan gynnwys cyngor ar unrhyw elfennau o wrthdaro buddiannau neu fudd i ymddiriedolwr y dylid ei awdurdodi
- peidio â phenodi unrhyw ymddiriedolwyr pellach a fyddai'n peryglu cyflwyno gwrthdaro buddiannau o'r math hwn neu o'r raddfa hon
- adolygu eu darpariaethau penodi ymddiriedolwyr a'u harferion recriwtio er mwyn gallu penodi pobl mwy 'annibynnol'

Rhoi budd amhriodol i ymddiriedolwr

Gallai hyn godi pan fydd:

- ymddiriedolwr yn benthyg arian neu'n benthyca arian i'w elusen ar delerau nad oes modd eu cyfiawnhau eu bod er lles yr elusen
- nid yw lefel y tâl sy'n cael ei wneud i ymddiriedolwr, neu unigolyn neu sefydliad sy'n gysylltiedig ag ymddiriedolwr, yn gymesur â maint yr elusen neu natur y gwaith dan sylw
- mae nifer yr ymddiriedolwyr neu'r bobl neu'r sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolwyr, sy'n cael budd o'r elusen mewn rhyw ffordd, yn rhy uchel

Cydnabyddwn fod amgylchiadau pan fydd taliadau i ymddiriedolwyr wedi'u caniatáu neu gellir eu cyfiawnhau. Fodd bynnag, byddwn yn awdurdodi'r trafodion hyn dim ond os oes cyfiawnhad clir ei fod er lles gorau'r elusen. Fel arall, byddwn yn gwrthod awdurdod.

Os yw lefelau tâl i ymddiriedolwyr yn ormodol neu os yw buddion ymddiriedolwyr mewn elusen ar raddfa fawr, gall hyn greu'r argraff bod yr elusen wedi'i sefydlu er mwyn gwobrwyo ei hymddiriedolwyr yn ariannol yn hytrach nag er budd cyhoeddus. Po fwyaf o ymddiriedolwyr sy'n cael buddion gan elusen, hyd yn oed os yw wedi'i awdurdodi, y mwyaf y risg a'r anfantais bosibl yn enwedig o ran rheoli'r gwrthdaro buddiannau cysylltiedig a gwarchod enw da'r elusen.

Yn yr achos hwn mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr ystyried:

- y broblem o wrthdaro buddiannau er mwyn gallu dileu unrhyw effaith bosibl ar y penderfyniad sy'n cael ei wneud - gall hyn olygu bod yr ymddiriedolwyr yn penderfynu symud gwrthdaro buddiannau difrifol. Yn yr enghreifftiau a roddir, mae symud y gwrthdaro buddiannau yn debygol o gael ei gyflawni drwy beidio â gweithredu mewn ffordd a effeithir gan wrthdaro buddiannau, neu drwy ofyn i'r ymddiriedolwyr ymddiswyddo os oes gwrthdaro sylweddol ganddynt - fel uchod, os yw'r gwrthdaro buddiannau yn gysylltiedig ag elfen o fudd i ymddiriedolwr, byddai angen awdurdod ar gyfer y budd o hyd er bod ef neu hi wedi ymddiswyddo

Os ydyn nhw am barhau heb symud y gwrthdaro buddiannau, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr:

- sicrhau bod yr awdurdod priodol yn ei le ar gyfer unrhyw fuddion ymddiriedolwyr

Dylent geisio osgoi problemau difrifol drwy:

- sicrhau, os yw unrhyw ymddiriedolwyr yn cael budd, bod y trefniadau sy'n effeithio ar ymddiriedolwyr a'r cydbwysedd cyffredinol a graddfa'r taliadau yn gallu cael ei gyfiawnhau'n glir fel rhai sydd er lles yr elusen
- ystyried lleihau nifer yr ymddiriedolwyr, neu'r bobl neu'r sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolwyr sy'n cael budd - ein disgwyliadau ar y cychwyn yw bod cyfanswm yr ymddiriedolwyr, neu'r bobl neu'r sefydliadau cysylltiedig sy'n cael taliadau wedi'u hawdurdodi neu fudd gan yr elusen yn y lleiafrif

Os yw'n ymddangos bod elusen yn troi'n gyfrwng ar gyfer taliadau ymddiriedolwyr, yn hytrach nag er budd cyhoeddus, byddwn yn defnyddio ein pwerau i warchod ei hasedau.

Atodiad 4: Llunio polisi gwrthdaro buddiannau

Dylai ymddiriedolwyr lunio polisi sy'n ateb anghenion eu helusen. Nid oes rhaid i'r polisi hwn fod yn gymhleth, ond dylai gael ei adolygu a'i ddiweddaru'n gyson.

Hefyd argymhellwn fod ymddiriedolwyr yn sefydlu cofrestr buddiannau. Wrth gofnodi eu holl fuddiannau eraill yn agored, gall fod modd adnabod unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl yn haws gan ymddiriedolwyr unigol a'r corff ymddiriedolwyr. Dylai'r gofrestr buddiannau gael ei diweddaru'n rheolaidd.

Fan lleiaf, dylai polisi gwrthdaro buddiannau:

- ddiffinio gwrthdaro buddiannau
- esbonio bod cyfrifoldeb personol gan yr ymddiriedolwyr i ddatgan gwrthdaro buddiannau os ydynt am gyflawni eu dyletswydd gyfreithiol i weithredu er lles gorau'r elusen yn unig
- nodi beth mae dogfen lywodraethol yr elusen yn ei ddweud am wrthdaro buddiannau
- diffinio'r holl fuddiannau y dylai'r ymddiriedolwyr eu datgan, gan gynnwys buddiannau busnes a phersonol a rhai eu priod, partner, teulu a pherthnasau agos
- diffinio buddiannau ymddiriedolwyr a thynnu sylw at y gofyniad i gael awdurdod cyfreithiol cyn ymrwymo i unrhyw drafodiad sy'n cynnwys rhoi budd i ymddiriedolwr
- cynnwys canllawiau ar y gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd gwrthdaro gan ymddiriedolwr, megis:
  - cofnodi buddiannau ymddiriedolwyr yng nghofrestr buddiannau'r elusen
  - datgan buddiannau ar ddechrau pob cyfarfod
  - dileu'r ymddiriedolwr dan sylw o'r broses gwneud penderfyniadau
  - cofnodi manylion y trafodaethau a'r penderfyniadau a wnaed
- amlinellu sut a phwy fydd yn monitro ac yn gorfodi'r polisi
- cael ei gyfathrebu'n eang a'i ddeall o fewn yr elusen
- bod yn rhan o fframwaith polisi ehangach, er enghraifft llawlyfr ymddiriedolwyr - dylai hefyd gyfeirio at y gwerthoedd a'u harddel yn yr holl godau ymddygiad perthnasol a pholisïau eraill y mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr eu dilyn

Rhoi sylw i wrthdaro buddiannau: rhestr gyfeirio

C1. Os yw ymddiriedolwr wedi adnabod gwrthdaro buddiannau, ydy'r corff ymddiriedolwyr wedi ystyried a yw'r gwrthdaro yn ddifrifol ac felly dylid ei ddileu neu a ddylent geisio awdurdod ar ei gyfer (gweler rhan 4 y canllaw hwn). Os yw'r ymddiriedolwyr wedi penderfynu yn erbyn symud y gwrthdaro buddiannau neu geisio awdurdod ar ei gyfer, ewch i Gwestiwn 2.

↓

C2. Ydy'r gwrthdaro buddiannau wedi codi oherwydd y bydd yr ymddiriedolwr dan sylw yn cael budd o ganlyniad i'r penderfyniad? (Mae manylion am fudd i ymddiriedolwr, a pha fuddion y mae angen eu hawdurdodi, i'w gweld yn rhan 3 ac Atodiad A y canllaw hwn). Os ydy, ewch i Gwestiwn 3. Os nac ydy, ewch i Gwestiwn 4.

↓

C3. Ydy'r budd wedi'i awdurdodi:

- gan ddogfen lywodraethol yr elusen?
- gan ddarpariaeth statudol megis adran 185 o'r Ddeddf Elusennau?
- yn benodol, gan y Comisiwn Elusennau? (gweler Atodiad A y canllaw hwn)

Os nac ydy, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud cais i'r Comisiwn am awdurdod ar gyfer y budd (gweler rhan 3 ac Atodiad A y canllaw hwn). Ewch i Gwestiwn 5.

Os ydy, ydy'r ymddiriedolwyr elusen wedi cydymffurfio â thelerau'r awdurdod? Ewch i Gwestiwn 5.

↓

C4. Er nad oes unrhyw fudd i ymddiriedolwr, oes gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod modd gwneud y penderfyniad er lles gorau'r elusen yn unig? (gweler rhan 4 y canllaw hwn).

Os nac ydy, dylai'r ymddiriedolwyr elusen geisio cyngor ar eu penderfyniad, ac yn y dyfodol, sicrhau bod gweithdrefnau gwrthdaro buddiannau addas yn eu lle ac yn cael eu dilyn.

Os ydy, ewch i Gwestiwn 6.

↓

C5. Ydy'r ymddiriedolwyr elusen wedi gwirio a oes angen iddynt ddatgelu'r budd i ymddiriedolwr yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon (gweler rhan 4 o'r canllaw). Ewch i Gwestiwn 6.

↓

C6. Ydy'r ymddiriedolwyr elusen wedi gwneud cofnod o'r gwrthdaro, eu hymagwedd at ddelio â'r gwrthdaro, a'u penderfyniad? (gweler rhan 4 y canllaw)